

24 - Towyn (Tudweiliog) i Borth Oer (Whistling Sands) 8 milltir/13 km

I fynd i safle carafanau Towyn o Dudweiliog, cymerwch y llwybr troed sydd ar ochr ogleddol y Swyddfa Bost ar draws y caeau (mwdlyd ger y gatiâu) drwy'r buarth fferm gyda'r safle carafanau. Mae coffi, hufen iâ a byrbrydau ar gael yn nhymor yr haf o'r siop ar dop y llwybr i'r traeth.

O'r Safle Carafanau, ewch yn eich blaen i ddilyn Llwybr yr Arfordir. Mae arwydd y llwybr yn eich cyfeirio at y traeth – hyfryd! Os byddwch yn dewis yr opsiwn yma bydd angen i chi sgrialu i fyny'r clogwyn yn ôl at y llwybr. Neu, os yw'r llanw i mewn, ewch i ganfod mainc sy'n edrych allan dros y bae a dilynwch yr arfordir ar lefel uwch.

Mewn rhai manau dydy'r llwybr yn ddim mwy na thrac defaid ar hyd brig y clogwynni isel. Byddwch yn hynod o ofalus uwchben y golfach ym Mhenrhyn Melyn lle mae'r llwybr wedi'i dandorri ac y mae risg y gallai falu. Gall fod yn llithrig os yw'n wlyb. Tua hanner ffordd i lawr Traeth Penllech lle mae'r nant yn dod i lawr at y môr, mae'r llwybr yn mynd i lawr yn serth. Rhaid bod yn ofalus i fynd i lawr, ar draws y nant ac i fyny'r ochr arall. Mae'r llwybr yn cadw at yr arfordir drwy Borth Colmon a'i Faes Parcio. Ewch yn eich blaen ar hyd yr Arfordir i geunant a nant amlwg ym Mhorth Widlin. Mae llwybr erbyn hyn yr holl ffordd i Borth Oer.

Neu gallwch adael Llwybr yr Arfordir ym Mhorth Widlin. Pan fydd Llwybr yr Arfordir yn croesi'r nant ym Mhorth Widlin ac yn mynd yn syth ymlaen, trowch i'r chwith i ddilyn y llwybr troed i'r lôn. Trowch i'r dde ar hyd y lôn. Ewch yn syth ymlaen wrth y gyffordd gyntaf yna i'r dde ac i'r chwith wrth y ddwy nesaf. Ar ôl oddeutu 900 metr (a chyn y gyffordd nesaf) cymerwch y llwybr troed ar y dde sy'n arwain i'r traeth ym Mhorth Oer – yr enw arno yn Saesneg yw Whistling Sands am fod y tywod yn gwichian o dan eich traed. Ar lan y môr mae siop a chaffi sy'n agored yn yr haf i gael paned dda.

O'r fan yma mae dau opsiwn:

- 1.** Ewch yn eich blaen ar hyd Llwybr Arfordir Cymru wrth iddo fynd o amgylch pen pellaf Pen Llŷn lle mae golygfeydd gwych o Ynys Enlli cyn i chi gyrraedd Aberdaron;
- 2.** Cerddwch drwy'r maes parcio i'r lôn a dilyn llwybr uniongyrchol i Aberdaron.